Datganiad i'r Wasg
Press Release

Yr Arweinydd Gareth John yn gwireddu ei freuddwyd yng Ngogledd Cymru

Y penwythnos hwn fe fydd cwrs preswyl Cerddorfa Ieuenctid Gogledd Cymru yn Ysgol Moreton Hall yng Nghroesoswallt yn cyrraedd uchafbwynt gwefreiddiol wrth i dros chwedeg o gerddorion ifanc berfformio dwy gyngerdd arbennig iawn. Bydd y gyngerdd gyntaf yn cael ei chynnal yn **Theatr Cymru Clwyd, nos Wener, Awst 27ain** am **7pm** a'r ail yn **Neuadd Pritchard Jones Bangor, nos Sadwrn, Awst 28ain** am **7pm.**

Mae Cerddorfa Ieuenctid Gogledd Cymru yn dod â goreuon y byd cerdd yng Ngogledd Cymru ynghyd wrth iddynt fynychu dosbarthiadau meistri, gweithdai adrannol a derbyn hyfforddiant arbenigol. Ailsefydlwyd y gerddorfa yn 2005 gyda'r nod o ddarparu hyfforddiant a phrofiad o'r lefel uchaf a pharatoi cerddorion ifanc ar gyfer Cerddorfa Ieuenctid Cenedlaethol Cymru.

Eleni, mae'r gerddorfa wedi bod yn gweithio dan law'r arweinydd byd-enwog o Aberystwyth, Gareth John. Yn chwaraewr soddgrwth cydnabyddedig, mae Gareth yn gweithio'n rheolaidd gyda cherddorfeydd gorau Gogledd Ddwyrain yr Alban ynghyd â pherfformio fel unawdydd concerto gyda Sinffonieta Aberdeen a Cherddorfa Siambr Aberdeen. Ef hefyd yw arweinydd preswyl cyntaf Cerddorfa Siambr Aberdeen.

Mae arwain Cerddorfa Ieuenctid Gogledd Cymru yn dod â Gareth yn ôl i'w wreiddiau wedi bron i 30 mlynedd ers iddo ddilyn ei dad fel athro soddgrwth gyda'r gerddorfa ac yn gyfle arbennig iddo arwain yng Nghymru unwaith eto.

"Y peth gorau am weithio gyda cherddorion ifanc yw y gallwch chi ddibynnu arnynt i wneud eu gorau glas bob tro," meddai Gareth. "Ma' nhw'n gweithio'n galed iawn, does yna ddim ots pa rwystrau sy'n eu hwynebu yn ystod yr wythnos, maent yn rhoi cant a chant i'w perfformiaf ac fe allwch chi ddibynnu ar hynny. Mae gweld eu hwynebau nhw ar ddiwedd y cyngherddau a gweld pa mor llwyddiannus ydyn nhw yn rhio boddhad mawr i mi."

Bydd repertoires y cyngherddau'n cynnwys un o'r darnau clasurol fwyaf poblogaidd, *Enigma Variations* gan Elgar a threfniant Ravel o *Pictures of an Exhibition* gan Mussorgsky, cyfuniad y mae Gareth wedi aros blynyddoedd i'w perfformio.

Datganiad i'r Wasg
Press Release

"Mae'r rhaglen hon yn rhaglen dwi wedi bod eisiau ei wneud ers amser maith, maith ond heb gael y cyfle hyd yma. Mae darn Elgar yn bortread personol iawn o ffrind tra bod darnau Mussorgsky yn argraffiadau arbennig o gelf ac mae'r ddau ddarn yn adlewyrchu ei gilydd yn dda, dda iawn. Mae'n rhaglen gyffrous iawn," meddai Gareth. "Dwi'n edrych ymlaen at fod ar y llwyfan hefo'r myfyrwyr yn y cyngherddau. Dwi'n gwybod y bydd yna fwy nag un achlysur lle y byddai'n teimlo ias o wefr wrth iddyn nhw berfformio - dwi'n edrych ymlaen yn arw."

Mae cerddorion rhwng 11 a 21 oed o'r chwe sir ar draws Gogledd Cymru – Gwynedd, Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam, yn mynychu'r cwrs gyda nifer yn dychwelyd yn flynyddol.

Mae Mari Gwenllian Jones o Langefni yn un o aelodau hynaf y gerddorfa a hithau'n 21. Yn chwarae'r Obo ers pan oedd hi'n wyth oed, mae Mari wedi mynychu'r Gerddorfa yn flynyddol ers 2005.

"Dwi wrth fy modd yn dod yma gan ei fod o'n rhoi cyfle i mi gyfarfod pobl newydd a chwrdd â hen ffrindiau dwi wedi eu gwneud yma dros y blynyddoedd. Ma' cael y cyfle i weithio hefo pobl fel Gareth John yn brofiad ffantastig i mi a ma' cwrdd â chymaint o bobl o'r byd cerdd yn grêt," meddai Mari. "Dwi'n edrych ymlaen at y cyngherddau achos ei fod o'n gyfle i ni ddangos be 'da ni wedi bod yn gweithio arno yn ystod yr wythnos. Mae'n waith caled iawn, ond mae'n gyfle gwych i berfformio o flaen cynulleidfa."

Mae Daniel Evans wedi bod yn chwarae'r bas dwbl ers saith mlynedd, eleni fydd y bedwaredd tro i Daniel fynychu Cerddorfa Ieuenctid Gogledd Cymru.

"Ma' yna sawl agwedd gwych i'r cwrs yma, ond y rhan gora' ydy chwarae hefo'r gerddorfa gyfan, creu cerddoriaeth," meddai Daniel sy'n 18 ac o Wrecsam. "Mae Gareth John yn hynod o ffantastig - mae o'n arweinydd anhygoel. Ma' ganddo fo dechneg wych a ma' ganddo fo gysylltiad da gyda phobl ifanc - mae'n gwybod sut i siarad hefo ni heb yn trin ni fel plant ac yn llwyddo i gael y gorau allan ohona' ni - mae'n anrhydedd cael gweithio hefo rhywun fel Gareth."

Dyma'r tro cyntaf i Joseph sy'n 15 o Wrecsam fynychu'r cwrs, profiad y mae'n gobeithio ei gael eto yn y dyfodol.

"Mae cael cyfarfod pobl ry'n oed a fi sydd â diddordeb mewn cerddoriaeth a chael chwarae cerddoriaeth o'r math yma yn grêt," meddai Joseph sy'n chware'r corn. "Mae bod o gwmpas cerddorion ac arweinwyr mor wych sy'n ein dysgu ni yn anhygoel. Mae ganddo ni bobl o Gerddorfa Halle a Cherddorfa Ffilharmonig

Datganiad i'r Wasg
Press Release

Lerpwl yn ein dysgu ni sy'n rhoi cyfle i ni gael golwg fewnol ar gerddoriaeth gan bobl sy'n perfformio'n broffesiynol."

Mae Aled Marshman, Rheolwr Cerddorfa Ieuenctid Gogledd Cymru yn hapus iawn gyda'r wythnos hyd yma ac yn edrych ymlaen tuag ar y cyngherddau nos Wener a nos Sadwrn.

"Mae yna awyrgylch agored iawn ar y cwrs ac mae'r bobl ifanc i gyd yn ymroddedig iawn," meddai Aled a fu ei hun yn aelod o'r gerddorfa pan oedd yn ifanc. "Be dwi wedi ceisio ei wneud ers ailsefydlu'r gerddorfa yn 2005 yw cael cerddorion sydd ar frig eu gyrfa, sy'n gallu rhannu eu doniau gyda'r bobl ifanc yn effeithiol ac sydd â chysylltiad hefo Gogledd Cymru. Os yw'r cerddorion ifanc yn cael profiad o ddysgu gan gerddorion o Ogledd Cymru sydd nid yn unig yn chwarae gyda cherddorfeydd gorau Prydain, ond hefyd y byd, yna rwy'n gobeithio y gwnaiff hyd eu hysbrydoli ymhellach."

Pris tocynnau ar gyfer y cyngherddau yw £8 i oedolion, mynediad am ddim i blant dan 16. Mae modd prynu tocynnau ar gyfer y perfformiad yn Theatr Cymru Clwyd drwy ffonio'r swyddfa docynnau ar 0845 3303536 a thocynnau ar gyfer y gyngerdd yn Neuadd Pritchard Jones dwy ffonio swyddfa docynnau Galeri ar 01286 685222. Bydd tocynnau hefyd ar gael wrth y drws ar y noson.

DIWEDD

Nodyn i'r golygydd:

- Ffurfiwyd **Cerddorfa Ieuenctid Gogledd Cymru** mewn partneriaeth artistig ac ariannol rhwng y chwe sir yng ngogledd Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Cafodd Gareth John ei wers soddgrwth cyntaf gan ei dad Geraint, oedd yn sielydd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ac yn ddiweddarach gyda George Isaac. Graddiodd gyda chlod mewn perfformiad o Ysgol Gerdd y Guildhall gan astudio gyda William Pleeth. Yn ystod y cyfnod hwn enillodd wobr David Ffrancon Thomas.

Am fwy o wybodaeth, lluniau a chyfweliadau, cysylltwch â Gwenan Davies yn Cambrensis ar 01286 685254 neu gwenan@cambrensis.uk.com